

AM GYFNOD yn y pumdegau (1952-8, a bod yn fanwl) bŵm yn gofalu am Adran Eidaleg Prifysgol Dulyn, ac oherwydd hynny cefais gyfle i dreulio fy mlwyddyn gyntaf yn Iwerddon yn byw yng Ngholeg y Drindod yng nghanol y brifddinas. Yr oedd nifer o siopau llyfrau diddorol yn Nulyn ar y pryd, ac mi gefais yr argraff fod prisiau llyfrau ail-law yno yn gymharol ffafriol (yn ffafriol i'r prynwr, hynny yw). Tyfodd fy llyfrgell yn sylweddol.

Tua 1956 neu 1957 daeth yr Athro M.F.M. Meiklejohn, Glasgow, draw i Ddylun fel arholwr allanol. Cofiaf imi ddangos fy llyfrau iddo, ac yn arbennig un yr oeddwn yn hynod falch ohono, sef argraffiad 1602 o'r *Pastor fido* gan Guarini. Gellid darllen y pris (chwe swllt) mewn pensil arno o hyd; erbyn hyn mae wedi diflannu.

Cytunodd Meiklejohn fod y gyfrol yn un hardd, ac am rai munudau bu'n sylu ar y llun o'r awdur a geir ynddi, fel petasai hwnnw o ddiddordeb eithriadol iddo. "Daliwch ati", meddai, "efallai y cewch gopi rywbyrd o argraffiad 1590".

Ond ni chefais ryw lawer o lwyddiant gyda'r *Bugail ffyddlon* yn ystod y blynyddoedd canlynol, a hynny yn bennaf, efallai, am fy mod wedi ymadael â Dulyn yn 1958, pan benodwyd fi'n ddarlithydd yn Rhydychen. Yn sicr, ceir siopau llyfrau ardderchog yn y ddinas honno, ond mae'r gystadleuaeth ymhlith darllenwyr deallus am lyfrau ail-law hefyd yn ffyrnig; os ymddengys hen lyfr gwirioneddol ddiddorol mewn Eidaleg yno, bydd rhyw ddarlithydd neu lyfrgellydd coleg neu fyfyrwr gwareiddiedig yn debyg o'i fachu ar unwaith.

O leiaf dyna fy mhrofiad i: yn ystod fy neuddeg mlynedd yn Rhydychen (wyth fel darlithydd a phedair yn ôl yn y pedwardegau fel myfyrwr) ni fŵm yn rhyw lwcus iawn erioed gyda llyfrau ail-law.

DRAMA fugeiliol yw'r *Pastor fido*. Fe'i cyfansoddwyd gan Battista Guarini (1538-1612) yn wythdegau'r unfed ganrif ar bymtheg, ac fe ymddangosodd y testun yn Fenis ym mis Rhagfyr 1589, ond gyda'r dyddiad 1590.

Daeth y gwaith yn boblogaidd ar unwaith a chafwyd lluo o adargraffiadau, ac mae'n debyg fod yr Athro Perella ar dir digon diogel pan ddywed fod y *Pastor fido* wedi bod 'am yn agos i ddwy ganrif y gwaith seciwlar mwyaf poblogaidd yn llenyddiaeth Ewrop'. Cafwyd nifer o gyfieithiadau o'r Eidaleg i ieithoedd eraill, yn cynnwys sawl un (yr un) i'r Ffrangeg ac i'r Saesneg.

T. GWYNFOR GRIFFITH ar drywydd IL PASTOR FIDO (1590)

Yn ddiau, y cyfieithiad gorau i'r Saesneg yw'r un a gyhoeddodd Syr Richard Fanshawe dan y teitl *The Faithfull Shepherd* yn 1647. Mae'n debyg fod pobl yn dal i ddarllen hwnnw; o leiaf cawyd argraffiadau ohono yn gymharol ddiweddar, un dan olygyddiaeth W.F. Staton a W.E. Simeone (Gwasg Prifysgol Rhydychen 1964) ac un arall wedi ei olygu gan J.H. Whitfield (Gwasg Prifysgol Caeredin 1976).

Bu Fanshawe, wrth gwrs, yn cyfieithu o ieithoedd eraill heblaw'r Eidaleg, ac un o'r pethau mwyaf diddorol arno yw'r ddarlith agoriadol a draddodwyd gan yr Athro Gareth Alban Davies (Llangwryfon bellach) pan etholwyd ef i Gadair Sbaeneg Prifysgol Leeds.

OND i fynd yn ôl at y gwreiddiol, yr argraffiad cyntaf, fel y dywedais, o'r *Pastor fido*

oedd yr un a ymddangosodd gyda'r dyddiad 1590 yn Fenis. Sut bynnag, nid oedd hwnnw na'r adargraffiadau a'i dilynodd yn gwbl foddhaol, ac fe ddaeth Guarini ei hun i'r casgliad fod angen trwsio tipyn ar y testun. Gwnaeth hynny ar gyfer yr ugeinfed argraffiad yn 1602.

Yn y gyfrol a gyhoeddwyd y flwyddyn honno gan Ciotti yn Fenis ceir yn ogystal sylwadau Guarini ar y math yma o ddrama farddonol, sef y *Compendio della poesia tragicomica* a gyfansoddodd yn 1601. Testun 1602 yw'r testun gorau o'r *Pastor fido* a gyhoeddwyd yn ystod oes yr awdur, ac ar y testun hwnnw y sefydlir ein hargraffiadau modern.

A dyna, wrth gwrs, yr un a geid yn y gyfrol wedi ei rhwymo mewn memwrn y buaswn i mor falch ohoni yn Nulyn.

Yn ystod Tymor yr Haf 1974 yr oeddwn yn fy ystafell yn y Brifysgol ym Manceinion pan gauodd y telefon. Rhywun yn

swyddfa'r *Times* yn Llundain oedd yn galw: yr oedd yr Athro M.F.M. Meiklejohn, Glasgow, wedi marw, meddai, ac yr oeddent am imi ysgrifennu gwerthfawrogiad byr o'i yrfa a'i waith fel ysgolhaig.

Gwnenthum hynny yn ystod y prynhawn a'i ffonio yn ôl atynt fel y gallai ymddangos y bore canlynol. Yna, a rhai wythnosau wedi mynd heibio, cefais lythyr oddi wrth gyfreithiwr yn Glasgow.

Yr oedd y diweddar Athro Meiklejohn yn ei ewyllys wedi enwi nifer o bobl yr oedd wedi cyfarfod â hwy yn ystod ei fywyd ac wedi ceisio gadael rhywbeth priodol i bob un ohonynt. I mi ei gymunrodd oedd nifer o lyfrau yn yr iaith Eidaleg, ac yn eu plith argraffiad 1590 o'r *Pastor fido* gan Battista Guarini.

A dyna sut y daeth *Pastor fido* 1590 i eistedd yn ymyl *Pastor fido* 1602 yn fy nghasgliad. Mae'n llyfr hardd, ond ni cheir ynddo lun o'r awdur, megis yn argraffiad 1602. Eto i gyd, yr wyf yn gwerthfawrogi ei bresenoldeb urddasol yn fy llyfrgell yn fawr iawn.

Hawlfraint a gwerthiant cerddi Ceiriog

Gan STAN WICKLEN

Ceiriog Hughes i Groesoswallt fel prentis argraffydd yn un ar bymtheg oed, ond ar ôl blwyddyn gadawodd y maes i fynd at y rheilffordd fel clerck ym Manceinion.

Yn wir Isaac Clarke o Ruthun a ddarganfu Ceiriog fel awdur a thrwyddo ef y daeth llyfrau Ceiriog yn llwyddiant ac yn boblogaidd gyda'r werin Gymreig - ffaith a oedd yn ffynhonnell ciddigedd i argraffwyr cyfoes megis Hughes a'i Fab o Wrecsam.

Yn 1863 dychwelodd Ceiriog i Gymru ac i Lanidloes yn orsaf-feistr ar y Cambrian Railway. Yn 1870 roedd yn Nhywyn, ac yn 1871 penodwyd ef yn arolygydd ar y rheilffordd a oedd newydd ei hgoro Gwersws i'r 'Van.'

Erbyn 1870 roedd Hughes a'i Fab wedi prynu hawlfraint Ceiriog oddi wrth Isaac Clarke, pan oedd yn dirwyn i ben fel argraffydd. Ysgrifennodd rheolwr Hughes a'i Fab ar y pryd sef Charles Hughes lythyr at 'Mr. John Ceiriog Hughes, Llanidloes' wedi ei ddyddio Ebrill 2, 1870 yn dweud:-

Dear Ceiriog. Enclosed is £15 on a/c of 'Oriau Haf' which we hope to begin upon immediately.

Yn ôl y llythyr yma Hughes a'i Fab ac nid Isaac Ffoulkes (Llyfrbryf) fel y dywed y Bywgraffiadur a gyflwynodd y casgliad olaf o gerddi Ceiriog, Yr Oriau Haf.

Bu Isaac Ffoulkes yn brentis argraffydd gyda Clarke ar un adeg yn Rhuthun a dywedodd fod Oriau'r Hwyr Ceiriog, erbyn y flwyddyn 1872 wedi ymddangos mewn pum argraffiad. Yn ôl ystadegau Isaac Ffoulkes gwerthwyd rhwng 25 mil a 30 mil o gopiau o'r un llyfr erbyn 1887 pan fu farw yr awdur. Y mae'n werth cymharu gwerthiant ar lyfrau Ceiriog ganrif yn ôl gyda ffigurau am werthiant llyfrau Cymraeg heddiw er bodolaeth y Cyngor Llyfrau Cymraeg!

Fel y dywedais prynodd Hughes a'i Fab hawlfraint Ceiriog er mwyn cyhoeddi ei lyfrau ond yn rhyfedd cafodd O.M. Edwards ganiatâd gan y bardd cyn ei farw i gyhoeddi cyfrol o'i waith.

Dywedir hyn gan O.M. Edwards yn *Cymru* wrth sôn am ei ymdrechion i werthu Cyfres y Fil yn y blynyddoedd 1901-16. Argraffwyd y cyfrolau bach hyn gan R.E. Jones a'i Fab, Conwy dros 'ab Owen' fel y galwodd O.M. Edwards ei hun. Ond dau deitl o'r gyfres a werthwyd allan yn llwyr sef *Dafydd ap Gwilym* (1901) a *Ceiriog* (1901).

Efallai fod barddoniaeth Ceiriog yn hen ffasiwn. Fel y dywedodd T. Gwynn Jones am ddetholiad o'i weithiau a argraffwyd ac a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab, "Cyfansoddodd lawer, - gormod y mae'n ddiau, canys y mae ôl diofalwech hyd yn oed ar ei bethau gorau. Buasai'n wyrth o beth pe buasai ei waith yn gwbl rydd oddi wrth ddiffygion ei gyfnod."